# Gwella Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mehefin 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 19 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 22 |
| 2 Argymhellion blaenorol | 25 |
| 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 27 |
| 4 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr | 29 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaeth ein hadolygiad asesu'r cynnydd a wnaed gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) o ran rhoi argymhellion yr archwiliad o drefniadau llywodraethu ansawdd a gynhaliwyd gennym yn 2021 ar waith. Fe wnaeth hefyd ystyried cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i adolygu a gweithredu trefniadau corfforaethol i ateb gofynion newydd y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a gweithgarwch goruchwylio a chraffu cysylltiedig.

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Dylai ansawdd fod yn 'greiddiol' i bob agwedd ar ofal iechyd ac mae 'rhoi ansawdd a diogelwch' o flaen unrhyw beth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n tanategu'r GIG yng Nghymru. Gall gofal iechyd o ansawdd gwael fod yn gostus o ran niwed, gwastraff ac amrywiad.

3 Yn ystod 2021-22, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol adolygu trefniadau llywodraethu ansawdd ar draws yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru. Canfu'r Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd a gynhaliwyd gennym yn 2021 yn y Bwrdd Iechyd ei fod yn ymrwymedig i sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da a'i fod wedi cymryd camau i wella ei drefniadau llywodraethu ansawdd. Roedd gwaith i'w wneud o hyd i wreiddio'r trefniadau hyn a mynegi blaenoriaethau ansawdd y sefydliad. Roedd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau hefyd bod mesurau yn eu lle i ddangos a monitro cyflawniad i lywio gwelliannau ar draws yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir.

4 Fe wnaethom naw argymhelliad a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- y fframwaith sicrwydd comisiynu;
- y fframwaith ansawdd clinigol;

- aliniad fframweithiau;
- cwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu;
- mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch;
- hyfforddiant DATIX;
- hyfforddiant statudol a gorfodol; a
- chapasiti dadansoddeg data.

5 Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf wedi cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau i ansawdd ar draws y system gyfan. Gosododd ddyletswydd gonestrwydd ar gyrff y GIG hefyd, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored a gonest gyda defnyddwyr gwasanaethau pan fo pethau'n mynd o chwith a rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd yn erbyn ein hargymhellion archwilio blaenorol. Mae fframweithiau newydd yn eu lle i fynegi'n well beth yw'r trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau, a'r rheiny'n cael eu hategu gan drefn well i fonitro mesurau ansawdd a diogelwch. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei darged cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol hefyd.

7 Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod angen nodi ei safonau gofal disgwyliedig ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu, a sicrhau ei fod yn cynhyrchu Adroddiadau rheolaidd ar Berfformiad Gwasanaethau wedi'u Comisiynu. Dylai'r rhain gynnwys goruchwyliaeth ar gwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu, sy'n dal i fod yn fwlch. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd i wella mynediad at ddata, mae capasiti dadansoddol yn fwlch hefyd, a byddai'n dal o fudd i'r Bwrdd Iechyd fod â dangosfwrdd ansawdd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod staff corfforaethol priodol wedi cael hyfforddiant DATIX hefyd.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran gwreiddio'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd. Roedd cynllun gweithredu eglur, ac mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar gydymffurfio. Fodd bynnag, mae angen i oruchwyliaeth ar y niferoedd sy'n cael hyfforddiant perthnasol wella.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad sy'n disodli chwe argymhelliad a wnaed yn 2021 nad ydynt wedi'u cwblhau eto, a ddiweddarwyd i adlewyrchu'r cyd-destun cyflawni cyfredol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- mesurau perfformiad a deilliannau gwasanaethau wedi'u comisiynu;
- goruchwyliaeth ar gwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu;
- hyfforddiant DATIX; a
- dadansoddeg data.

10 Rydym hefyd wedi gwneud dau argymhelliad newydd sy'n canolbwyntio ar:

- yr Adroddiadau ar Berfformiad Gwasanaethau wedi'u Comisiynu; a
- goruchwyliaeth ar e-ddysgu ar y ddyletswydd ansawdd.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

- Mae tri o’r naw argymhelliad blaenorol wedi’u cwblhau. Bu peth cynnydd yn erbyn tri argymhelliad ac ni weithredwyd o gwbl ar y tri sy’n weddill.

- Cyfradd gydymffurfio o 89% ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol ym mis Hydref 2025, o’i gymharu ag 85% ym mis Ionawr 2024 ac 82% ym mis Ionawr 2023.

- Bu angen cymhwyso gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd i ddau ddigwyddiad ‘niwed cymedrol ac uwch’ yn ystod 2024-25, allan o gyfanswm o 66 o ddigwyddiadau.[1]

[1] Caiff niwed cymedrol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Gonestrwydd ei ddiffinio fel digwyddiad diogelwch claf sy’n arwain at gynnydd cymedrol mewn triniaeth a niwed sylweddol, ond nid parhaol.

# Ein canfyddiadau

## Rhoi argymhellion blaenorol ar waith

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi alinio fframweithiau, wedi mynd y tu hwnt i dargedau hyfforddiant, ac wedi gwneud cynnydd gyda dadansoddeg data, ond nid yw wedi gweithredu o gwbl ar gwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu na hyfforddiant DATIX corfforaethol**

### Fframwaith Sicrwydd Comisiynu

11 Fe wnaeth ein hadolygiad yn 2021 argymell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i gynnwys mesurau ar safonau'r gofal a roddir neu ddeilliannau cleifion. Mae'r argymhelliad hwn ar y gweill.

12 Ers ein hadolygiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi disodli'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu â'i Fframwaith Comisiynu Strategol. Fe gymeradwyodd y Bwrdd hwn ym mis Medi 2025. Mae'r Fframwaith Comisiynu Strategol yn manylu ar ddull y Bwrdd Iechyd o gomisiynu gwasanaethau i boblogaeth Powys.[2] Mae cwmpas y Fframwaith Comisiynu Strategol yn ymwneud â gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu ac yn eu comisiynu gan gyrff GIG cyfagos.

[2] Nid yw'r Fframwaith Comisiynu Strategol yn cwmpasu Gofal Sylfaenol, Gofal Iechyd Parhaus a lleoliadau Iechyd Meddwl y tu allan i'r ardal sydd â threfniadau llywodraethu ar wahân.

13 Ategir y Fframwaith Comisiynu Strategol gan y trefniadau monitro a nodir yn y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2025. Mae’r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig yn nodi sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro, yn sicrhau, ac yn uwchgyfeirio ansawdd a pherfformiad gwasanaethau a ddarperir a gwasanaethau wedi’u comisiynu. Mae’r ddau fframwaith yn gweithio gyda’i gilydd fel un system lywodraethu.

14 Er bod ffocws cyson ac integredig ar ansawdd ar draws y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig a’r Fframwaith Comisiynu Strategol a fframwaith eglur ar gyfer sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro safonau gofal a deilliannau cleifion, nid yw wedi datblygu mesurau a deilliannau disgwyliedig ar gyfer pob un o’i ddarparwyr a gomisiynir eto.

15 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio cydlynydd profiad pobl yn ddiweddar, y mae’n gobeithio y bydd yn llywio gwaith i adnabod a datblygu deilliannau a mesurau priodol.

## Goruchwyliaeth ar Lywodraethu Ansawdd Clinigol

16 Fe argymhellodd ein hadolygiad yn 2021 fod y Bwrdd Iechyd yn datblygu map llywodraethu ar gyfer y sefydliad. Dylai hwn ddangos yn glir beth yw’r ystod o weithgareddau sydd yn eu lle ar y lefel strategol a gweithrediadol i sicrhau bod llinell welediad glir ar ansawdd a diogelwch o wasanaethau i’r Bwrdd ac adnabod unrhyw orgyffyrddiadau neu fylchau rhwng grwpiau. Mae’r argymhelliad hwn wedi’i gwblhau.

17 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno trefniadau goruchwylio newydd ar gyfer ansawdd clinigol ar gyfer ei wasanaethau a ddarperir a gwasanaethau wedi’u comisiynu. Mae’r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig yn darparu sicrwydd rheolaidd ynghylch perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a’r Bwrdd. Cyflwynir Adroddiad Ansawdd Integredig i’r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch bob chwarter a hwnnw’n canolbwyntio’n benodol ar ansawdd. Mae’r pwyllgor hwn yn craffu’n gryf ar faterion ansawdd.

18 Ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu, mae llinellau atebolrwydd yn glir ond nid yw mecanweithiau i ddarparu goruchwyliaeth strategol a gweithrediadol ar waith yn llawn. Ers ein hadolygiad gwreiddiol, mae'r Bwrdd Iechyd:

- wedi sefydlu Grŵp Goruchwyliaeth a Sicrwydd Comisiynu, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu gyda chynrychiolaeth ar draws y sefydliad gan gynnwys cyllid, nyrsio ac ansawdd;
- wedi diweddaru a chryfhau ei broses Cyfarfodydd Adolygu Ansawdd a Pherfformiad Contractau (newid mynychder cyfarfodydd ac adroddiadau/uwchgyfeirio at y Grŵp Goruchwyliaeth a Sicrwydd Comisiynu);
- wedi cydnabod yr aliniad/y gyd-ddibyniaeth effeithiol rhwng y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig a'r Fframwaith Comisiynu Strategol; ac
- wedi ymrwymo i ddatblygu Adroddiad misol ar Berfformiad Gwasanaethau wedi'u Comisiynu.

19 Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wreiddio'r trefniadau hyn yn llawn. Dylai'r Grŵp Goruchwyliaeth a Sicrwydd Comisiynu gyflwyno gwybodaeth berthnasol am wasanaethau wedi'u comisiynu i'r Pwyllgor Gweithredol ac ymlaen i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad trwy'r Adroddiad ar Berfformiad Gwasanaethau wedi'u Comisiynu. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'r Grŵp Goruchwyliaeth a Sicrwydd Comisiynu yn haf 2025 a bod y grŵp hwn yn cwrdd yn rheolaidd, nid yw'r Adroddiad ar Berfformiad Gwasanaethau wedi'u Comisiynu wedi cael ei gyflwyno i'r un pwyllgor. O ganlyniad, nid oes rhyw lawer o sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau wedi'i comisiynu'n cael ei gyflwyno i bwyllgorau perthnasol. O ystyried bod y Bwrdd Iechyd wedi diweddaru'r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig ym mis Mai 2025, dylai wneud hyn ar fyrder i sicrhau bod digon o oruchwyliaeth a chraffu ar lywodraethu ansawdd clinigol fel a fwriedir.

20 Mae’r Cyfarfodydd Adolygu Ansawdd a Pherfformiad Contractau’n digwydd ond mae mynychder cyfarfodydd yn cael ei bennu gan ystod o ffactorau gan gynnwys amgylchiadau, perfformiad ac unrhyw risgiau perthnasol i gontractau. Efallai yr hoffai’r Bwrdd Iechyd ystyried a oes arno angen gofyniad o ran isafswm y cyfarfodydd bob blwyddyn i sicrhau goruchwyliaeth ar bob contract. Ar adeg ein harchwiliad ni, ar lafar yr oedd diweddariadau o Gyfarfodydd Adolygu Ansawdd a Pherfformiad Contractau ac nid oedd unrhyw wybodaeth am ba mor aml y bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal a lefel y data y byddant yn ei chynnwys.

## Aliniad fframweithiau

21 Fe argymhellodd ein hadolygiad yn 2021 y dylai’r Bwrdd Iechyd adolygu’r potensial i alinio’r Fframwaith Ansawdd Clinigol a’r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu. Rydym wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau’r argymhelliad hwn.

22 Fe wnaeth Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd ddisodli ei Fframwaith Ansawdd Clinigol a’i Fframwaith Sicrwydd Comisiynu yn 2024. Mae’r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig yn berthnasol i’r holl wasanaethau y mae’r Bwrdd Iechyd yn eu darparu a’r rhai a gomisiynir gan gyrff GIG cyfagos. Mae’n darparu’r trefniadau monitro ar gyfer Fframwaith Comisiynu Strategol newydd y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, mae fframweithiau’r Bwrdd Iechyd a arferai fod ar wahân bellach yn gweithio mewn ffordd sydd wedi’i halinio’n fwy ac sy’n fwy cydlynus.

## Pryderon a Chwynion

23 Yn ein hadolygiad yn 2021 canfuom fod angen mwy o oruchwyliaeth ar gwynion gan drigolion Powys am wasanaethau wedi’u comisiynu ar lefel pwyllgorau. Roedd angen eglurder hefyd ynghylch y cyfrifoldeb am fonitro cwynion ac adrodd arnynt. Rydym wedi canfod na fu unrhyw gynnydd yn y maes hwn.

24 Er bod gan y Bwrdd Iechyd oruchwyliaeth dda ar gwynion am wasanaethau y mae’n eu darparu’n uniongyrchol, ceir heriau o hyd mewn perthynas â chofnodi, dadansoddi a deall cwynion am wasanaethau wedi’u comisiynu.

25 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym y bydd yn monitro cwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu fel rhan o'r Fframwaith Comisiynu Strategol. Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith Comisiynu Strategol yn crybwyll cwynion. Dywedwyd wrthym y byddai goruchwyliaeth ar gwynion yn cael ei darparu gan y Grŵp Goruchwyliaeth a Sicrwydd Comisiynu, gan ddefnyddio cudd-wybodaeth o'r Cyfarfodydd Adolygu Ansawdd a Pherfformiad Contractau, cyn uwchgyfeirio unrhyw adroddiadau perthnasol am gwynion at y pwyllgor priodol. Fodd bynnag, nid yw'r broses hon yn ei lle eto.

26 Nid yw'r Fframwaith Comisiynu Strategol cyfredol yn cynnwys gofyniad i holi am unrhyw gwynion a/neu archwilio unrhyw gwynion a gyflëwyd i'r gwasanaeth wedi'i gomisiynu gan gleifion Powys. Hefyd, nid yw'r Fframwaith Comisiynu Strategol yn cynnwys sut y bydd y Grŵp Goruchwyliaeth a Sicrwydd Comisiynu yn casglu cwynion am ddarparwyr wedi'u comisiynu na sut y byddir yn adrodd am y cwynion hyn ac yn eu huwchgyfeirio. Nid yw'r Fframwaith Comisiynu Strategol yn nodi'r broses gwynion yn ddigon penodol. O ganlyniad, ceir diffyg eglurder o hyd ynghylch cwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu.

27 Mae hwn yn gyfle a gollir i ddwyn gwasanaethau wedi'u comisiynu i gyfrif a defnyddio data i ddangos tueddiadau. Fel a ganfuwyd yn ein harchwiliad blaenorol, nid yw'r trefniadau cyfredol yn darparu proses ffurfiol ar gyfer adnabod, rheoli ac adrodd am gwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu wrth y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch.

## Mesurau Perfformiad Ansawdd a Diogelwch Cleifion

28 Yn ein hadolygiad yn 2021 fe wnaethom argymell bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu dangosfwrdd ansawdd a oedd yn mynegi mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch cleifion a pherfformiad y Bwrdd Iechyd. Bu peth cynnydd yn y maes hwn.

29 Mae’r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig yn cynnwys ystod o fesurau perfformiad cenedlaethol a lleol gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol statudol a lleol. Mae’r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig hefyd yn cynnwys fframwaith uwchgyfeirio sy’n cynnwys sbardunau perfformiad, camau gweithredu disgwyliedig a threfniadau monitro a chymorth.

30 Mae’r Adroddiad Perfformiad ac Ansawdd Integredig yn nodi’n glir beth yw pob mesur perfformiad, ei darged, tuedd a statws uwchgyfeirio gan alluogi goruchwyliaeth glir i ddigwydd. Lle mae perfformiad gan wasanaethau wedi’u comisiynu ar gael, mae’r adroddiad yn cyflwyno perfformiad gwasanaethau a ddarperir a gwasanaethau wedi’u comisiynu ar wahân i osgoi dryswch.

31 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch cleifion mwy manwl yn yr Adroddiad Ansawdd Integredig i’r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn chwarterol. Mae’r Adroddiad Ansawdd Integredig yn dal gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys:

- Pryderon a Chwynion (Gweithio i Wella);
- Achosion Dyletswydd Gonestrwydd;
- Adrodd am Ddigwyddiadau;
- Digwyddiadau sy’n Adroddadwy yn Genedlaethol; ac
- Atal a Rheoli Heintiau.

32 Fodd bynnag, fe wnaethom nodi yn ein Hasesiad Strwythuredig 2025 bod yr Adroddiad Ansawdd Integredig yn naratif iawn ac er ei fod wedi’i fritho â pheth data a rhai graffiau defnyddiol, bod angen i’r adroddiad fod yn fwy eglur o ran sut y mae’n adnabod meysydd sy’n peri pryder. Rydym wedi argymell adolygiad o strwythur yr Adroddiad Ansawdd Integredig yn ein Hasesiad Strwythuredig 2025.

33 Byddai’n dal o fudd i’r Bwrdd Iechyd fod â dangosfwrdd sy’n mynegi’r mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch cleifion a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i ddysgwyr fesur llwyddiant a gweld gwelliannau.

## Hyfforddiant DATIX

34 Yn ein hadolygiad yn 2021 canfuom nad yw pob aelod o staff corfforaethol wedi cael hyfforddiant a chymorth mewn perthynas â sut i ddefnyddio'r system DATIX i adrodd am bryderon a digwyddiadau trwch blewyn. Rydym wedi canfod na fu unrhyw weithredu o gwbl yn y maes hwn.[3]

35 Gall yr holl staff ar draws y Bwrdd Iechyd gael mynediad at hyfforddiant DATIX trwy fewnrwyd y Bwrdd Iechyd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu rhag-recordio hyfforddiant er rhwyddineb mynediad. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth bod y staff corfforaethol perthnasol wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.

## Hyfforddiant statudol a gorfodol

36 Canfu ein hadolygiad yn 2021 nad oedd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd ei darged cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae'r hyfforddiant hwn yn bwysig i sicrhau diogelwch staff a chleifion, yn ogystal â'u llesiant. Rydym wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau'r argymhelliad hwn.

37 Ym mis Hydref 2025, roedd y gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant gorfodol a statudol yn 89%, a oedd y tu hwnt i darged y Bwrdd Iechyd, sef 85%. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â pherfformiad yn 2023 a 2024, ac mae'n cymharu'n ffafriol wrth feincnodi yn erbyn byrddau iechyd eraill yng Nghymru.

## Dadansoddeg Data

38 Fe wnaeth ein hadolygiad yn 2021 argymell bod y Bwrdd Iechyd yn meithrin capasiti dadansoddeg data o fewn ei dimau gweithrediadol i'w cynorthwyo i ddeall a gwerthuso eu perfformiad yn well. Rydym wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd yn y maes hwn.

---

[3] Datix (yn benodol y System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru – Datix Cymru) yw'r system safonol, ddiogel yn y cwmwl a ddefnyddir gan GIG Cymru i adrodd ar ddigwyddiadau, risgiau, a phryderon sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, gan gynnwys y rhai sy'n sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a rheoli a dadansoddi'r rhain.

39 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddangosfyrddau digidol sy’n tanategu adroddiadau ar berfformiad a ddelir ac a reolir gan y tîm digidol gweithrediadol. Y tîm digidol sy'n cynnal y dangosfyrddau, gan gasglu data gan y perchnogion data a’r tîm perfformiad sydd â goruchwyliaeth ar y cyfan. Mae’r rhain yn tanategu ystod o adroddiadau gan gynnwys adroddiadau ar berfformiad i’r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Mae’r dangosfyrddau’n cynnwys cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, cyfraddau salwch yn ôl grwpiau o staff a rhesymau dros absenoldeb. Mae’r Adroddiadau Perfformiad ac Ansawdd Integredig i’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn tynnu ar ddangosfyrddau ar gyfer triongli hefyd.

40 Er bod dangosfyrddau digidol yn tanategu’r adroddiadau perfformiad, nid ydynt yn ddangosfyrddau Power BI rhyngweithiol y gall staff eu hymholi’n rhwydd at ddibenion craffu. Fe hoffai’r Bwrdd Iechyd ddatblygu hyn yn y dyfodol, ac mae’n bwriadu sefydlu dangosfwrdd data perfformiad rhyngweithiol, mewn amser real gyda dadansoddwyr data pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd capasiti.

41 Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Arwain Gweithrediadol yn 2025. Un o’r swyddogaethau yw craffu ac arfer goruchwyliaeth ar lywodraethu gweithrediadol gan gynnwys ansawdd, gwella, perfformiad a chyflawni. Mae’r grŵp hefyd yn cydnabod yr angen i feithrin capasiti mewn timau gweithrediadol i ddadansoddi a gwerthuso perfformiad.

# Ymateb i'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i wreiddio'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, ond cyfyngedig yw'r oruchwyliaeth ar y niferoedd sy'n cael hyfforddiant

42 Daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020 i rym ar 1 Ebrill 2023. Cyn ei chyflwyno, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd asesu ei barodrwydd i ddilyn y Ddeddf yn erbyn sefyllfa sylfaenol Llywodraeth Cymru.

43 Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd, ac Iechyd Menywod a Theuluoedd sy'n arwain ar y ddwy ddyletswydd gyda chymorth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd. Mae tudalen we Dyletswydd Ansawdd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y Safonau Iechyd a Gofal a dolenni i wefannau perthnasol megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

44 Mynegodd y Bwrdd Iechyd ddull eglur o roi'r ddwy ddyletswydd statudol ar waith. Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd Fwrdd Gweithredu mewnol sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd gyda mewnbwn gan yr holl Gyfarwyddiaethau. Bu'r Bwrdd yn cwrdd yn fisol i oruchwylio'r cynnydd o ran rhoi'r dyletswyddau ar waith ac yn adrodd yn ôl wrth y Tîm Cenedlaethol.

45 Fe ddarparodd y Bwrdd Iechyd sesiynau Datblygu'r Bwrdd ar y Ddyletswydd Ansawdd yn 2023, a bu Aelodau Annibynnol mewn sesiwn hyfforddi genedlaethol. Fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd ac fe drefnodd fod hyfforddiant a fideo ar gael i'r holl staff.

46 Ym mis Ebrill 2024, cafodd y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch Gynllun Gweithredu'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu ar gyfer y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd. Bu Bwrdd Gweithredu pwrpasol a chyfarwyddwyr perthnasol yn goruchwylio gwaith i gyflawni'r cynllun hwn.

47 Yn dilyn cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig i gynnwys proses uwchgyfeirio ar gyfer ansawdd a pherfformiad ym mis Mawrth 2024. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r statws uwchgyfeirio ar gyfer cyfarwyddiaethau gweithrediadol ac adrannau corfforaethol yn fisol. Mae'r statws yn ystyried materion ansawdd a diogelwch a phrofiad cleifion.

48 Mae'r Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd 2024-25 yn cynnwys gwybodaeth am y Ddyletswydd Gonestrwydd, gan gynnwys y nifer o weithiau y sbardunwyd y ddyletswydd yn 2024-25 a'r broses y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei dilyn pan ddigwydd hyn. Mae hyn yn golygu dilyn gweithdrefn Gweithio i Wella GIG Cymru ac mae'r camau wedi'u rhestru yn yr adroddiad er mwyn eglurder.

49 Ar lefel weithrediadol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfarfodydd Grwpiau Ansawdd a Pherfformiad Integredig mewnol. Grwpiau Ansawdd a Pherfformiad Integredig yw proses allweddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer adolygu, herio a chefnogi cyfarwyddiaethau mewn perthynas ag ansawdd, perfformiad, cyllid, y gweithlu a chyflawni. Maent yn eistedd islaw'r Pwyllgor Gweithredol ond uwchlaw cyfarfodydd ar lefel cyfarwyddiaethau/timau. Mae'r rhain yn offeryn i oruchwylio, herio ac adolygu ansawdd a pherfformiad ar draws pob maes ond maent yn cynnwys ffocws penodol ar ansawdd a diogelwch a phrofiad cleifion. Gall Grwpiau Ansawdd a Pherfformiad Integredig uwchgyfeirio materion at y Pwyllgor Gweithredol ac at bwyllgorau perthnasol a'r Bwrdd pan fo angen.

50 Mae perfformiad rheolaidd yn cael ei fonitro trwy'r Adroddiad Ansawdd Integredig. Fel a nodwyd yn flaenorol, cyflwynir yr Adroddiad Ansawdd Integredig i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch i ddarparu diweddariad ar yr agenda ansawdd a diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd.

51 Mae pecyn hyfforddiant y Ddyletswydd Ansawdd ar gael trwy'r Cofnod Staff Electronig. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu asesu faint o staff y mae angen iddynt wneud yr hyfforddiant hwn na faint sydd wedi ei gwblhau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau i fonitro'r gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant, i ddarparu sicrwydd bod staff yn cael eu cynorthwyo i ddeall y dyletswyddau newydd ac ymateb iddynt.

# Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad sy'n disodli chwe argymhelliad a wnaed yn 2021 nad ydynt wedi'u cwblhau eto, a ddiweddarwyd i adlewyrchu'r cyd-destun cyflawni cyfredol. Rydym hefyd wedi gwneud dau argymhelliad newydd.

Caiff statws argymhellion 2021 ei nodi yn **Atodiad 2**.

### Argymhellion newydd sy'n disodli argymhellion a wnaed yn 2021 nad ydynt wedi'u cwblhau eto

**A1** Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu mesurau perfformiad ac ansawdd ar gyfer pob darparwr wedi'i gomisiynu y gall eu monitro a'u mesur yn unol â'r Fframwaith Comisiynu Strategol. Bydd hyn yn darparu goruchwyliaeth a sicrwydd ar wasanaethau wedi'u comisiynu a gofal cleifion (**paragraff 14**).

**A2** Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi mecanwaith yn y Fframwaith Comisiynu Strategol ynglŷn â sut y bydd yn darparu sicrwydd ynghylch cwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu. Dylai hyn gynnwys y mecanwaith ar gyfer cofnodi cwynion ac adrodd amdanynt wrth y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch (**paragraff 26**).

**A3** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau, cofnodi ac adrodd bod yr holl staff corfforaethol perthnasol wedi cael hyfforddiant a chymorth mewn perthynas â sut i ddefnyddio'r system DATIX i adrodd am bryderon a digwyddiadau trwch blewyn (**paragraff 35**).

**A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio cyfleoedd o fewn capasiti presennol i ddatblygu dangosfyrddau digidol rhyngweithiol i gyflwyno dangosyddion perfformiad a helpu'r darllenydd i ddeall a gwerthuso llwyddiant a heriau (**paragraffau 33 a 40**).

## Argymhellion newydd

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyflwyno'r Adroddiad misol ar Berfformiad Gwasanaethau wedi'u Comisiynu fel a amlinellir yn y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig. Bydd hyn yn datblygu goruchwyliaeth a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau wedi'u comisiynu fel a fwriedir (**paragraff 19**).

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer hyfforddiant e-ddysgu ar y ddyletswydd ansawdd trwy fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau staff (**paragraff 51**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Rydym wedi asesu:

- a yw'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi argymhellion archwilio blaenorol a gododd o'n hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd yn 2021 ar waith ac a yw'n gwireddu deilliannau a manteision bwriadedig yr argymhellion hynny; ac
- a oes dull corfforaethol cadarn i oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn unol â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei fframwaith sicrwydd comisiynu?
- A yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'n glir beth yw'r mecanweithiau sydd yn eu lle i ddarparu goruchwyliaeth strategol a gweithrediadol ar lywodraethu ansawdd clinigol?
- A yw'r Bwrdd Iechyd wedi alinio'r Fframwaith Ansawdd Clinigol a'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd fwy o oruchwyliaeth ar gwynion gan drigolion Powys am wasanaethau wedi'u comisiynu?
- A yw mesurau ansawdd a diogelwch cleifion y Bwrdd Iechyd yn eglur?
- A yw'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau hyfforddiant i staff perthnasol ar y system rheoli pryderon Cymru Gyfan?
- A yw'r holl staff yn cael yr hyfforddiant statudol a gorfodol angenrheidiol?

- A yw'r Bwrdd Iechyd yn casglu data perthnasol ar ansawdd a diogelwch i ddeall a gwerthuso perfformiad?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i roi trefniadau ar waith i gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd?

### Meini Prawf

Wrth gasglu tystiolaeth yn erbyn y cwestiynau uchod, roedd arnom eisiau i'r Bwrdd Iechyd ddangos ei fod:

- wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig o ran rhoi'r argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2021 (a nodir yn **Atodiad 2)** ar waith i ymdrin â'r materion a'r pryderon a ganfuwyd yn yr archwiliad gwreiddiol; ac
- yn rhoi gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) ar waith mewn perthynas â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.

## Dulliau

Fe wnaethom ni ein gwaith archwilio rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025.

Fe wnaethom adolygu'r dogfennau allweddol canlynol:

- Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig;
- Fframwaith Comisiynu Strategol;
- Fframwaith Profiad Pobl;
- Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd;
- Adroddiadau Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd;
- Adroddiadau pwyllgorau, gan gynnwys adroddiadau Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad.

Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu;
- Aelod Annibynnol/Is-Gadeirydd/Cadeirydd y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch.

Fe ofynnom ni hefyd i'r Bwrdd Iechyd gwblhau a chyflwyno hunanasesiad, a hwnnw'n nodi ei farn ynglŷn â chynnydd yn erbyn argymhellion 2021. Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd hunanasesiad wedi'i gwblhau ar 8 Gorffennaf 2025.

# 2 Argymhellion blaenorol

Fe wnaethom ni'r argymhellion canlynol yn 2021 yn dilyn ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi amlygu statws yr argymhellion hyn yn seiliedig ar ein hadolygiad dilynol ac wedi disodli argymhellion sydd heb gael eu rhoi ar waith lle y bo angen.

| | |
|---|---|
| **A1** | Adolygu'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i gynnwys mesurau ar safonau'r gofal a roddir neu ddeilliannau cleifion (**Peth cynnydd – wedi'i ddisodli gan A1 2026**). |
| **A2** | Datblygu map llywodraethu ar gyfer y sefydliad i adnabod yn glir beth yw'r ystod o weithgareddau sydd yn eu lle ar y lefel strategol a gweithrediadol i sicrhau bod llinell weled iad eglur o wasanaethau i'r Bwrdd ac adnabod unrhyw orgyffyrddiadau neu fylchau rhwng grwpiau (**Wedi'i gwblhau**). |
| **A3** | Adolygu'r potensial i alinio'r Fframwaith Ansawdd Clinigol a'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu (**Wedi'i gwblhau**). |
| **A4a** | Sicrhau bod yr holl gwynion gan drigolion Powys (a gyflwynir yn uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd) am wasanaethau wedi'u comisiynu'n cael eu cofnodi ac yr adroddir arnynt wrth y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch (**Dim gweithredu – wedi'i ddisodli gan A2 2026**). |
| **A4b** | Diweddaru'r Fframwaith Sicrwydd Comisiynu i sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldeb am fonitro cwynion ac adrodd arnynt (**Dim gweithredu – wedi'i ddisodli gan A2 2026**). |

**A5** Datblygu dangosfwrdd ansawdd sy'n mynegi'r mesurau perfformiad ansawdd a diogelwch cleifion a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Bwrdd Iechyd, i fesur llwyddiant a dangos gwelliannau (**Peth cynnydd – wedi'i ddisodli gan A4 2026**).

**A6** Sicrhau bod yr holl staff corfforaethol yn cael hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl (**Dim gweithredu – wedi'i ddisodli gan A3 2026**).

**A7** Sicrhau bod yr holl gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol yn cyrraedd y targed gofynnol (**Wedi'i gwblhau**).

**A8** Meithrin capasiti o fewn y timau gweithrediadol i gynnal dadansoddiad dadansoddol yn eu timau i ddeall a gwerthuso perfformiad yn well (**Peth cynnydd – wedi'i ddisodli gan A4 2026**).

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Dyletswydd Ansawdd** | Rhwymedigaeth gyfreithiol ar sefydliadau GIG Cymru i fynd ati'n barhaus i wella ansawdd gwasanaethau gofal iechyd a deilliannau i bobl Cymru yw'r Ddyletswydd Ansawdd. Mae'r Ddyletswydd yn mynnu ffocws ar ansawdd ym mhob penderfyniad strategol a bod cynnydd o ran gwella ansawdd yn cael ei fonitro'n barhaus. |
| **Dyletswydd Gonestrwydd** | Gofyniad cyfreithiol i sefydliadau GIG Cymru fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaethau pan fo niwed yn digwydd yn ystod eu gofal yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu gyda'r claf, ymchwilio i'r digwyddiad, a dysgu ohono i atal yr un peth rhag digwydd eto yn y dyfodol. |
| **Fframwaith Comisiynu Strategol** | Mae'n nodi dull y Bwrdd Iechyd o gomisiynu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Powys. |
| **Gweithio i Wella** | Y broses ffurfiol ar gyfer codi pryderon a chyfleu cwynion am y GIG yng Nghymru a'i wasanaethau. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Llywodraethu ansawdd** | Y cyfuniad o strwythurau, prosesau ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain ar berfformiad a sicrhau perfformiad o ansawdd da, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd, a phrofiad cleifion. |
| **Power BI** | Meddalwedd cyfrifiadurol a ddefnyddir i ddadansoddi a gweld data i roi cymorth i ddeall data. |

# 4 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A1<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu mesurau perfformiad ac ansawdd ar gyfer pob darparwr wedi'i gomisiynu y gall eu monitro a'u mesur yn unol â'r Fframwaith Comisiynu Strategol. Bydd hyn yn darparu goruchwyliaeth a sicrwydd ar wasanaethau wedi'u comisiynu a gofal cleifion **(paragraff 14)**. | Wedi'i dderbyn a'i gwblhau.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu metrigau perfformiad sylfaenol ar gyfer darparwyr wedi'u comisiynu trwy drefniadau contract safonol GIG Cymru ac NHS England. Hefyd, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cyfres gynhwysfawr o fetrigau ansawdd a diogelwch cleifion ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu.<br><br>Bydd y mesurau hyn yn cael eu gwreiddio yn y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig a'u halinio â'r Fframwaith Comisiynu Strategol i gryfhau goruchwyliaeth, sicrwydd a'r modd y mae pryderon ynghylch ansawdd neu berfformiad yn cael eu hadnabod yn gynnar mewn gwasanaethau wedi'u comisiynu.<br><br>Mae Bwriadau Comisiynu manwl wedi cael eu dyroddi i dri phrif ddarparwr NHS | 31 Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu / Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd ac Iechyd Teuluoedd |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | England ac i ddarparwyr GIG Cymru i roi cymorth i gyflwyno data'n amserol a chryfhau trefniadau goruchwyliaeth gytundebol. | | |
| A2<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi mecanwaith yn y Fframwaith Comisiynu Strategol ynglŷn â sut y bydd yn darparu sicrwydd ynghylch cwynion am wasanaethau wedi'u comisiynu. Dylai hyn gynnwys y mecanwaith ar gyfer cofnodi cwynion ac adrodd amdanynt wrth y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch **(paragraff 26)**. | Wedi'i dderbyn a'i gwblhau'n rhannol.<br><br>Mae'r mecanweithiau gweithrediadol ar gyfer cofnodi, rheoli ac adrodd ar bryderon a chwynion mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u comisiynu'n eistedd yn y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig a threfniadau ehangach y System Rheoli Ansawdd.<br><br>Mae'r Fframwaith Comisiynu Strategol yn cyfeirio at System Rheoli Ansawdd BIAP o ran darparu ffocws ar feysydd ansawdd a galluogi camau gweithredu yn ôl System Rheoli Ansawdd BIAP; yn cyfeirio at ofyniad yn ôl y Ddyletswydd Ansawdd i fynd ati'n weithredol i fonitro cynnydd mewn ymdrechion gwella ansawdd; ac yn croesgyfeirio at y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig a ddefnyddir gan | Wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd ac Iechyd Teuluoedd |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | BIAP i gyflawni ei ddyletswydd i graffu ar berfformiad a sicrhau perfformiad BIAP a darparu a chomisiynu gwasanaethau o ansawdd sy'n canolbwyntio ar gleifion.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd ac Iechyd Teuluoedd a thimau Dirprwy Gyfarwyddwyr wedi adolygu prosesau cyfredol i gryfhau mecanweithiau trwy Datix. Adroddir ar bryderon a chwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau wedi'u comisiynu trwy drefniadau sefydledig y Fframwaith Ansawdd Integredig ar gyfer adrodd wrth y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch. | | |
| A3<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau, cofnodi ac adrodd bod yr holl staff corfforaethol perthnasol wedi cael hyfforddiant a chymorth mewn perthynas â sut i ddefnyddio'**r** system DATIX i adrodd am bryderon a | Wedi'i dderbyn<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r ddarpariaeth hyfforddiant DATIX i wella'r cynnwys, hygyrchedd a'r nifer sy'n cael yr hyfforddiant ar draws grwpiau staff corfforaethol perthnasol. Bydd y rhaglen wedi'i diweddaru'n cael ei chyflwyno o fewn y pedair wythnos nesaf. Bydd cyfraddau | 30 Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd ac Iechyd Teuluoedd |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| digwyddiadau trwch blewyn **(paragraff 35)**. | cwblhau'n cael eu monitro a'u cofnodi, gydag adroddiadau am gydymffurfio a'r niferoedd sy'n cael yr hyfforddiant yn cael eu cyflwyno trwy strwythurau llywodraethu sefydledig. Mae'r gwaith hwn wedi'i fwriadu i wella diwylliant adrodd, gwella ansawdd adroddiadau am ddigwyddiadau, a chryfhau gwersi sefydliadol a ddysgir o bryderon a digwyddiadau trwch blewyn. | | |
| A4<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio cyfleoedd o fewn capasiti presennol i ddatblygu dangosfyrddau digidol rhyngweithiol i gyflwyno dangosyddion perfformiad a helpu'r darllenydd i ddeall a gwerthuso llwyddiant a heriau **(paragraffau 33 a 40)**. | Wedi'i dderbyn<br><br>Ceir gwaith parhaus trwy'r timau Digidol a pherfformiad i barhau i ddatblygu dangosfyrddau rhyngweithiol.<br><br>Mae Grant Thornton a Phartneriaid yn rhoi cymorth i ddatblygu Dangosfwrdd Comisiynu erbyn Ch1 fel y maes blaenoriaeth. | 30 Gorffennaf 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu / Cyfarwyddwr Digidol a Therapïau |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A5<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyflwyno'r Adroddiad **misol** ar Berfformiad Gwasanaethau wedi'u Comisiynu fel a amlinellir yn y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig. Bydd hyn yn datblygu goruchwyliaeth a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau wedi'u comisiynu fel a fwriedir **(paragraff 19)**. | Wedi'i dderbyn yn rhannol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu Adroddiad ar Berfformiad Gwasanaethau wedi'u Comisiynu fel rhan o'i fodel ehangach i oruchwylio gwasanaethau wedi'u comisiynu. Bydd yr adroddiad yn ymgorffori ansawdd, diogelwch cleifion a dangosyddion perfformiad sy'n codi o Argymhelliad 1 a bydd yn rhan o'r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig.<br><br>Bydd adroddiadau'n cael eu darparu'n rheolaidd, a hynny'n cyd-fynd ag argaeledd data a llinellau amser adrodd darparwyr, i sicrhau goruchwyliaeth a chraffu ystyrlon ar wasanaethau wedi'u comisiynu.<br><br>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno trwy strwythurau llywodraethu a phwyllgorau perthnasol.<br><br>Bydd datblygu'r Dangosfwrdd Comisiynu y cyfeirir ato yn A4 o gymorth pellach i aeddfedrwydd a'r modd y cyflwynir | 30 Medi 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | adroddiadau ar wasanaethau wedi'u comisiynu.<br><br>Mae'r gallu i gynhyrchu'r adroddiad yn rheolaidd yn ddibynnol ar ddatblygu'r Dangosfwrdd Comisiynu y cyfeirir ato yn A4. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A6<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer hyfforddiant e-ddysgu ar y ddyletswydd ansawdd trwy fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adrodd ar gyfraddau cwblhau staff **(paragraff 51)**. | Wedi'i dderbyn<br><br>Mae ein dull gwella'n cynnwys cyfrifoldeb strategol ar y cyd rhwng y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd ac Iechyd Teuluoedd, a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Diwylliant a Thrawsnewid. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd ac Iechyd Teuluoedd sy'n gyfrifol am hybu a chynyddu cydymffurfio a bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Diwylliant a Thrawsnewid yn sicrhau bod adroddiadau monitro rheolaidd yn cael eu darparu, gan amlygu meysydd sy'n peri pryder mewn cyfraddau cydymffurfio.<br>Bydd gwelliannau i gydymffurfio lle mae hyfforddiant yn y cwestiwn yn cael eu gwneud trwy ystyried ychwanegu'r cwrs E-Ddysgu at restr Hyfforddiant Statudol a Gorfodol yr holl staff ac ychwanegu adroddiadau am berfformiad at Adroddiad Perfformiad y Gweithlu, a gaiff ei fonitro trwy'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, y Pwyllgor Profiad Cleifion ac Ansawdd a'r Pwyllgor Gweithredol. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gynnwys hefyd fel rhan o'r dull Adolygu Perfformiad Cyfarwyddiaethau ar gyfer Pobl a Diwylliant, a Nyrsio. | 31 Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Diwylliant a Thrawsnewid/ Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd ac Iechyd Teuluoedd |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.